

## Rheoli staff yn y lleoliad gwaith chwarae

## Trosolwg

Mae a wnelo'r safon hon â recriwtio a dewis pobl i wneud tasgau neu weithgareddau penodol yn eich maes cyfrifoldeb. Mae a wnelo hi hefyd â recriwtio a dewis staff mewn ffordd deg a gwrthrychol, ac mae'n rhoi sylw yn ogystal i ddal gafael ar staff a throsiant staff. At hyn, mae'r safon yn sôn am gefnogi cydweithwyr i adnabod eu hanghenion dysgu a helpu i gynnig cyfleoedd i gwrdd â'r anghenion hyn.

**Prif ddeilliannau'r safon hon ydy:**

1. recriwtio staff gwaith chwarae
2. adlewyrchu ar eich gwaith a'i ddatblygu
3. cefnogi staff i barhau gyda'u datblygiad proffesiynol

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr chwarae sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliad gwaith chwarae ac sy'n gyfrifol yn bennaf am roi cyfleoedd i blant chwarae fel maen nhw'n dewis ac yn dymuno ei wneud. Mae'r safon ar gyfer staff sydd â pheth cyfrifoldeb dros y lleoliad gwaith chwarae ac eraill, ac sy'n gwneud cyfraniad allweddol i gefnogi chwarae.

*\*Mae'r safon hon yn ategu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Mae angen i weithwyr chwarae fod yn gyfarwydd â'r rhain, a lle bo'n bosib, eu defnyddio wrth eu gwaith ac wrth adlewyrchu. \**

## Rheoli staff yn y lleoliad gwaith chwarae

## Meini prawf perfformiad

## Rhaid i chi allu:

**Recriwtio staff gwaith chwarae**

1. deall pam fod **staff** yn gadael a rhoi sylw i'r problemau
2. adolygu, adnabod ac ymateb i'r materion staff canlynol: diffyg yn y staff, gan gynnwys diffyg sgiliau, gwybodaeth a phrofiad
3. ymgynghori gydag eraill i lunio neu ddiweddarau disgrifiadau swydd neu fanylebau person sy'n uniongyrchol berthnasol i swyddogaeth ymgeiswyr posib
4. ymgynghori ag eraill i drafod a chytuno ar y camau i'w defnyddio yn y broses recriwtio a dewis
5. monitro'r broses recriwtio a dewis ac adnabod unrhyw feysydd mae modd gwella arnyn nhw
6. rheoli'r broses anwytho
7. dilyn polisiau a gweithdrefnau eich sefydliad o ran dal gafael ar a / neu ddiswyddo **staff**

**Adlewyrchu ar eich gwaith a'i ddatblygu**

8. arsylwi **staff** yn y lleoliad gwaith chwarae
9. adlewyrchu ar sut y buoch chi'n arsylwi **staff** er mwyn gwella gwaith chwarae
10. rhoi adborth i **staff** ynglŷn â'u perfformiad
11. cadw cofnodion yn unol â pholisiau a gweithdrefnau eich sefydliad
12. ymateb i wrthdaro yn y tîm a rhoi gweithdrefnau ar waith, fel bo angen

**Cefnogi staff i barhau gyda'u datblygiad proffesiynol**

13. hyrwyddo a chyfleu ethos gwaith chwarae sy'n cefnogi **staff** i hwyluso'r broses chwarae
14. hyrwyddo manteision datblygiad proffesiynol parhaus i **staff**
15. adnabod parodrwydd ac ymdrechion **staff** i ddysgu
16. rhoi adborth cadarnhaol i **staff** yn unol â chylch rheoli perfformiad eich mudiad
17. gweithio gyda **staff** i adnabod, blaenoriaethu a chytuno ar gynllun datblygu proffesiynol parhaus
18. cefnogi **staff** i fod yn rhan o ddatblygu proffesiynol parhaus
19. rhoi cyfleoedd i **staff** werthuso, adlewyrchu ar a rhannu eu gweithgareddau datblygu proffesiynol parhaus gyda gweddill y **staff**

## Rheoli staff yn y lleoliad gwaith chwarae

### Gwybodaeth a dealltwriaeth

#### Mae angen i chi wybod a deall:

##### *\*Recriwtio staff gwaith chwarae \**

1. yr Egwyddorion Gwaith Chwarae sy'n rhan o fframwaith proffesiynol a moesegol gwaith chwarae a sut mae modd cymhwyso pob un o'r egwyddorion i'ch gwaith chi
2. ffactorau sy'n cyfrannu at drosiant **staff**
3. sut i fonitro a mynd i'r afael â throsiant **staff**
4. sut i adolygu, adnabod ac ymateb i'r materion staff canlynol: diffyg yn y staff, gan gynnwys diffyg sgiliau, gwybodaeth a phrofiad
5. y gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a sefydliadol diweddaraf sy'n berthnasol i ddewis, recriwtio a chyflogi
5. beth ddylai disgrifiadau swydd a manylebau person roi sylw iddyn nhw a pham ei bod hi'n bwysig trafod gydag eraill wrth eu llunio neu eu diweddarau
6. camau gwahanol yn y broses **ddewis a recriwtio** a pham ei bod hi'n bwysig trafod ag **eraill**
7. ffyrdd gwahanol o ddewis a recriwtio staff a'u manteision a'u hanfanteision
8. ffynonellau cymorth arbenigol a sut a phryd i'w defnyddio
10. y cyd-destun cyflogaeth yn eich ardal ddaearyddol a'ch maes gwaith
9. sut i werthuso pa mor effeithiol ydy'r broses ddewis a recriwtio
12. y **broses anwytho**
10. polisiau a gweithdrefnau eich mudiad o ran cadw a / neu ddiswyddo **staff**

##### **Adlewyrchu ar eich gwaith a'i ddatblygu**

14. ffyrdd o arsylwi **staff** yn y lleoliad gwaith chwarae a phwysigrwydd hyn
15. sut mae adlewyrchu ar yr arsylwi wnaethoch chi yn fodd o wella'r gwaith chwarae
16. ffyrdd o roi adborth ynghylch perfformiad
17. y mathau o gofnodion sydd eu hangen a sut i'w cadw yn unol â pholisiau a gweithdrefnau eich sefydliad
17. sut i adnabod, ymateb i a rheoli gwrthdaro a gwrthdaro posib mewn tîm yn unol â pholisiau a gweithdrefnau eich sefydliad

##### **Cefnogi staff i barhau gyda'u datblygiad personol**

19. sut i hyrwyddo a chyfleu ethos gwaith chwarae
20. y cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus sydd ar gael i staff, a ble mae dod o hyd iddyn nhw
21. y manteision sydd yna i staff o ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus
20. pam y dylech chi gydnabod ymdrechion **staff** a'u hannog i

## Rheoli staff yn y lleoliad gwaith chwarae

---

- ymgymryd â datblygu proffesiynol parhaus
- 21. cylch rheoli perfformiad eich sefydliad
- 22. gwerthuso ffyrdd o roi adborth i **staff**
- 23. sut i ddatblygu **cynllun** datblygiad proffesiynol parhaus gyda **staff**
- 24. yr adnoddau sydd eu hangen i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus
- 25. manteision rhoi cyfleoedd i **staff** werthuso ac adlewyrchu ar eu datblygiad proffesiynol parhaus
- 28. y cyfleoedd sydd yna i rannu datblygiad proffesiynol parhaus gyda'r tîm a phwysigrwydd gwneud hyn

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

### **Staff** (*o leiaf 3 allan o 4*)

1. rydych chi'n gweithio gyda nhw
2. rydych chi'n gyfrifol amdanyn nhw
3. staff cyflogedig a / neu wirfoddol
4. myfyrwyr a / neu weithwyr dan hyfforddiant

### **Cynllun**

1. gweithgareddau dysgu i'w gwneud
2. amcanion dysgu i'w cyflawni
3. yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen
4. cyfleoedd dysgu anffurfiol

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

### Staff

1. rydych chi'n gweithio gyda nhw
2. rydych chi'n gyfrifol amdanyn nhw
3. staff cyflogedig a / neu wirfoddol
4. myfyrwyr a / neu weithwyr dan hyfforddiant

### Y broses ddewis a recriwtio

1. diffinio a hysbysebu'r gwaith
2. sefydlu sut fyddwch chi'n cyfweld, a'r meini prawf o ran dewis ymgeiswyr
3. llunio rhestr fer a hysbysu ymgeiswyr
4. amserlenni perthnasol
5. gwirio addasrwydd, gan gynnwys tystebau a gwiriadau diogelwch

### Eraill

1. partneriaid allanol
2. y pwyllgor rheoli
3. uwch reolwyr
4. adnoddau dynol
5. plant a phobl ifanc

### Y broses anwytho

1. trefniadau domestig
2. polisiau a gweithdrefnau eich sefydliad
3. amodau a thelerau gwaith
4. cymwysterau ac anghenion hyfforddi
5. y cylch rheoli perfformiad

### Cynllun

1. gweithgareddau dysgu i'w gwneud
2. amcanion dysgu i'w cyflawni
3. yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen
4. cyfleoedd dysgu anffurfiol

## Gwerthoedd

Mae'r Gweithwyr Chwarae oedd yn rhan o ysgrifennu'r safon hon, law yn llaw â SkillsActive, wedi cytuno i fabwysiadu'r canlynol fel y gwerthoedd fydd yn berthnasol i bawb sy'n gweithio yn y sector gwaith chwarae.

### Egwyddorion Gwaith Chwarae

Mae'r Egwyddorion hyn yn sefydlu fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae ac mae angen felly eu hystyried yn eu cyfanrwydd. Maen nhw'n disgrifio'r hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae, ac yn rhoi sylw i weithio gyda phlant a phobl ifanc o safbwynt gwaith chwarae. Mae'r safonau yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth y bydd modd i blant a phobl ifanc ddatblygu'n well os cawn nhw'r dewis ehangaf posib o gyfleoedd chwarae a mannau i chwarae ynddyn nhw.

1. Mae angen i bob plentyn a pherson ifanc chwarae. Mae chwarae yn rhywbeth greddfoll a chynhenid. Mae chwarae yn anghenraid biolegol, seicolegol a chymdeithasol, ac mae'n hanfodol i les a datblygiad pobl a chymunedau.
2. Mae chwarae yn broses wirfoddol, bersonol ac yn cael ei wneud er ei fwyn ei hun. Hynny ydy, mae plant a phobl ifanc yn penderfynu ac yn siapio beth a pham maen nhw'n chwarae, drwy ddilyn eu cyneddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffordd eu hunain ac am eu rhesymau eu hunain.
3. Prif amcan a hanfod gwaith chwarae ydy cefnogi a hwyluso'r broses o chwarae. Dylai hyn ddylanwadu ar ddatblygiad polisïau, strategaethau, hyfforddiant ac addysg yn ymwneud â chwarae.
4. Y broses chwarae sydd bwysicaf i weithwyr chwarae, ac maen nhw'n eiriol dros chwarae wrth ymwneud â sefyllfaoedd sy'n edrych ar bethau drwy lygaid oedolion.
5. Swyddogaeth y gweithiwr chwarae ydy cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i greu man lle mae modd iddyn nhw chwarae.
6. Mae ymateb gweithwyr chwarae i'r ffordd mae plant a phobl ifanc yn chwarae yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn a chyfoes o'r broses chwarae, ac o adlewyrchu ar eu profiadau eu hunain.
7. Mae gweithwyr chwarae yn adnabod yr effaith maen nhw'n ei chael ar y lle chwarae a hefyd yr effaith mae chwarae'r plant a'r pobl ifanc yn ei gael ar y gweithiwr chwarae.
8. Mae gweithwyr chwarae yn dewis ymyrryd mewn ffordd sy'n caniatáu i blant a phobl ifanc ehangu eu chwarae. Pob tro mae gweithiwr chwarae yn ymyrryd, rhaid iddo gydbwysu'r perygl o wneud hynny gyda'r fantais i les a datblygiad y plant.

## Rheoli staff yn y lleoliad gwaith chwarae

Caiff yr Egwyddorion Gwaith Chwarae eu dal mewn ymddiriedaeth gan y Grŵp Craffu ar gyfer Proffesiwn Gwaith Chwarae y Deyrnas Gyfunol. Bu'r Grŵp Craffu yn gweithredu fel canolwr di-duedd ac yn goruchwyllo'r broses ymgynghori lle cafodd y safonau eu llunio.

## Geirfa

**Man chwarae**

Man chwarae sy'n cael ei ffurfio gan blant a phobl ifanc. Mae modd iddo fod yn gorfforol, yn ymwneud â theimladau neu emosiynau, fod yn barhaol, dros dro neu yn ymwneud â'r byd seibr.

**Lleoliad gwaith chwarae**

Rhywle lle mae cyfle i blant a phobl ifanc chwarae a lle mae gweithwyr chwarae yn gweithio.



## Rheoli staff yn y lleoliad gwaith chwarae

Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	01 Chwef 2016
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Maw 2021
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	Newydd
Galwedigaethau perthnasol	Iechyd, Gofal a Gwasanaethau Cyhoeddus, Lles a Datblygiad Plentyn, Gweithwyr Proffesiynol y meysydd hyn a phobl mewn swyddi technolegol, Gweithwyr Chwaraeon a Ffitrwydd
Cyfes/Set	Gwaith Chwarae
Geiriau Allweddol	staff; lleoliad gwaith chwarae; dewis; recriwtio; gwaith chwarae